

# Phillip Lloyd yn olrhain **Delweddau'r Diwygwyr (2)**

**Y**n y rhifyn diwethaf o'r Casglwr soniais am y ffynonellau darluniadol a oedd ar gael i'r arlunydd Hugh Williams ar gyfer paentio *Y Sasiwn Gyntaf* ym 1912. Fel y dywed Peter Lord yn ei gyfrol swmpus *Delweddu'r Genedl* (GPC, 2000), roedd yr arlunydd yma ymhlith y rhai a oedd yn parhau i ddathlu gwerthoedd ac arweiniad Ymneilltuaeth yng Nghymru drwy gyfrwng delweddaeth brintiedig boblogaidd.

Nid darlun i'w osod ar y wal yn unig oedd *Y Sasiwn Gyntaf* i fod, felly. Am bum rhifyn olynol o'r Goleuad ym misoedd Hydref a Thachwedd 1912, ymddangosodd hysbyseb yn gofyn am 'agents' i werthu atgynrychiadau lliw ohono. At *Hughes Co, Liverpool* y gwahodwyd ceisiadau, ond D.S.Hughes, Prestatyn, a enwir ar y copïau fel cyhoeddwr a deiliad yr hawlfaint.

Faint o gopïau a werthwyd? Faint sydd ar ôl mewn capeli a chartrefi erbyn hyn? Heblaw'r rheini a ddaeth i ofal y Llyfrgell Genedlaethol, gwn am un sydd wedi goroesi yn ystafell blaenoriaid Capel Stryd Clwyd, Y Rhyl. Gwelodd y Parchedig Gomer M. Roberts un yn Watford Fawr ei hun pan oedd yn casglu gwybodaeth ar gyfer ei lyfr *Crwydro Blaenau Morgannwg* (1961), ond mae hwnnw wedi hen ddiplannu. A bu'r paentiad gwreiddiol ar y wal yn ystafell bwyllgor Coleg Diwinyddol Aberystwyth am flynyddoedd cyn cael ei symud i'r Llyfrgell Genedlaethol pan gaewyd y Coleg yn ddiweddar.

Yn *Y Goleuad* am Dachwedd 6ed 1912

**"AGENTS" I'W DOSBARTHU.**



Anfonwch am fanylion a'r lones.  
**HUGHES CO., 35, Bold St., LIVERPOOL.**

*Yr hysbyseb am 'agents' i werthu Y Sasiwn Gyntaf a ymddangosodd yn Y Goleuad ym misoedd Hydref a Thachwedd 1912*



*Plas Watford yn 2004: codwyd yr estyniadau a welir ar y chwith eithaf a'r dde eithaf yn y 19eg ganrif; ond roedd y rhan ganol, gyda'i ffenestri dormer, yn sefyll adeg Sasiwn Ionawr 1743. Ffotograff gan Philip Lloyd*

ceir adroddiad gan J.Wilson Roberts o Ynyshir ar ymweliad â Watford. Yr achlysur oedd gorymdaith drwy Gaerffili i ddathlu chwarter-milflwyddiant 'Troed Allan' 1662, pryd yr diarddeliwyd llu o offeiriadon a lleygwyr am wrthod cydymffurio ag arferion yr Eglwys Wladol.

'Wedi i'r cyfarfod [yng Nghapel Annibynnol Watford] derfynu', meddai Wilson Roberts, 'aethom gyda'n gilydd i dŷ ffarm o'r enw Watford Fach am de, a chafwyd lluniaeth teilwng o'r amgylchiad... Yr oedd awydd calon ynom am gael sangu y Watford [sef Watford Fawr, dros y ffordd] lle bu y Tadau, ond cawsom ar ddeall nad oedd preswylwyr y tŷ ddim am ganiatau i Anghydfurffwyr ddyfod dros y trothwy. Yr un pryd, llwyddasom i fyned drwy y lliidiart (neu y glwyd) i amgylchoedd y tŷ, a dyna lle yr ôedd amryw ohonom yn llygadrythu ar yr hen balas, ac yr oedd cant a mil o bethau yn myned trwy ein meddyliau...'

Beth bynnag oedd yn mynd drwy feddwl Wilson Roberts ar y pryd, mae'n gorffen yr adroddiad ar y llygadrythu drwy ddyfynnu o ddwy farwnad a gyfansoddwyd gan Pantycelyn; y naill i Grace, ferch-yng-nghyfraith Thomas Price, Watford Fawr, a'r llall i Daniel Rowland. Ymhlith y penillion i Rowland, mae'n dyfynnu hwn, am

Sasiwn Ionawr 1743 ('lle bu y Tadau'):-

*Dyma'r pryd daeth Whitfield enwog,  
Ar adenydd dwyfol ras.*

*Lawr i Gymru i gael profi  
Y newydd win o ddwyfol flas;*

*Dyma'r pryd yr hyfryd asiwyd,  
O fewn ffwrnes fawr y nef.*

*Sais a Chymro mewn athrawiaeth  
Loyw, ddysglair, gadarn, gref.*

### **'Fel bugail dros y praidd...'**

Aeth awdurdodau'r Eglwys Wladol yn fwyfwy amharod i urddo Methodistiaid yn offeiriadon wrth i'r Diwygiad fynd rhagddo (mae profiadau Thomas Charles yn enghraifft o hyn, pan oedd yn gurad yn Llanymawddwy ym 1784). Ac, fel y gwyr pawb ohonom, aeth y trefniant seiat-asasiwn oddi mewn i'r Eglwys yn enwad ar wahân (sef Eglwys Methodistiaid Calfinaidd Cymru fel y'i hadweinig ar y dechrau) yn gynnwys yn y ddeunawfed ganrif.

Ond bu tyndra oddi mewn i'r mudiad, megis yng Ngroeswen ym 1745: ysgrifennwyd (am yr eildro mewn dwy flynedd!) at y Sasiwn: 'Ein meddwl yw eich bod yn ormod yn nglyn wrth yr Eglwys Sefydledig...canys eisiau sydd [ar aelodau'r seiat] gael rhai i weinidogaethu y gair a'r ordinhadau iddynt yn ei bryd ac i edrych drostynt fel bugail dros y praidd...'. Gwrthodwyd y cais; ond ymhen saith mlynedd ymunodd Groeswen â'r Annibynwyr. Gyda'r cynnydd yn yr aelodaeth, bu'n rhaid ailadeiladu ddwywaith: ym 1830 ac eto ym 1874.

Un o'r ddau gyd-weinidog cyntaf oedd y saer maen William Edward, a

*(Parhâd ar y dudalen nesaf)*